

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bro Morgannwg

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn 2013–14

## **Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013 - 2014**

**Awdurdod Lleol: Cyngor Bro Morgannwg**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle gwelwyd cynnydd yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg yn 2013-14 a'r meysydd y mae angen eu gwella yn y dyfodol.**

### **Crynodeb**

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn tynnu sylw at y llwyddiannau a'r heriau yn ystod y cyfnod adrodd ac yn nodi blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer 2014-15. Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn dangos rhywfaint o amrywiant ym mherfformiad y cyngor, ond ar y cyfan mae'n cael ei ystyried yn berfformiad da.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cyfeirio at oblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o safbwynt adnoddau, ac at gyfraith achosion sy'n berthnasol i'r timau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ond nid yw'r adroddiad yn rhoi unrhyw fanylion ynglŷn â chynllunio ar gyfer y newidiadau hyn yn y dyfodol. Er hyn darparwyd rhagor o wybodaeth fanwl i'r cabinet.

Cafodd Byrddau Lleol Diogelu Plant Bro Morgannwg a Chaerdydd eu huno'n llwyddiannus yn 2013/14. Mae gwaith wedi cael ei wneud drwy Grŵp Llywio Diogelu'r cyngor ac ysgolion er mwyn cyflawni cyfrifoldebau diogelu yn holl wasanaethau'r Cyngor (gan gynnwys ysgolion ac adnoddau dynol). O ran asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu, mae'r cyngor wedi gweithredu protocolau sy'n ymwneud ag esgeuluso a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Canfu arolygiad AGGCC o blant sy'n derbyn gofal fod diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed wedi cael ei nodi fel un o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor. Roedd gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wybodaeth dda ac roeddent yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Drwy gydweithio â phartneriaid, gan gynnwys cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cynhyrwyd 'Datganiad o Fwriad' ym mis Mawrth 2014, sy'n nodi'r ymateb i ddogfen Llywodraeth Cymru 'Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth'. Mae'r cyngor yn cydnabod bod integreiddio'n dipyn o her, ond mae'n dal i roi arweiniad cryf i nifer o gydweithrediadau strategol.

Mae rhaglen newid strwythuredig wedi cael ei hwyluso gan welliannau parhaus mewn dulliau cydweithredol o weithio a chomisiynu. Gwelwyd cryn dipyn o ymwneud â phartneriaid ar lefelau strategol a gweithredol. Mae'r cyngor yn dweud nad yw hyn wedi'i gyfyngu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a'i fod hefyd

yn cynnwys cydweithio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill y cyngor ac ar draws ffiniau daearyddol gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill.

Dywed y cyngor fod cynnydd yn y galw am wasanaethau a llai o adnoddau'n gadael nifer o wasanaethau dan bwysau. Er hyn, mae gan y cyngor nifer o strategaethau er mwyn rhoi sylw i'r bylchau mewn gwasanaethau.

Yn ystod 2013-14, roedd cyfanswm y gwariant ar wasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bro Morgannwg yn £51 miliwn. Mae hyn yn cymharu â £48 miliwn yn 2012-13. Dywed y cyngor bod cryn bwysau ar wasanaethau cymdeithasol i gadw o fewn y gyllideb yn 2013-2014 ac y disgwyliid iddynt ganfod £2 miliwn arall o arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyngor yn dweud ei fod drwy drawsnewid gwasanaethau a rheoli adnoddau'n effeithiol wedi cyrraedd ei darged o arbed dros £2 filiwn ac wedi gorffen y flwyddyn â chyllideb gytbwys.

Mae'r cyngor yn dal i roi arweiniad cryf i wasanaethau cymdeithasol a chymorth i gynllunio. Dywed Swyddfa Archwilio Cymru bod gan y cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn. Cynllun Gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth 2013-17 a Rhaglen y Gyllideb oedd y prif gynlluniau arbedion ar gyfer 2013-2014. O ran gwasanaethau oedolion, cynyddodd gwariant ar becynnau gofal cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd, a chyfeiriwyd at bwysau ar y 'gyllideb lleoliadau plant' yng nghyswllt gwasanaethau plant.

Er mwyn sicrhau gweithlu digonol sydd â sgiliau da, mae'r cyngor wedi datblygu cynllun gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol 2013-2017. Dywedir bod staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gymharol brofiadol, bod ganddynt gymwysterau da a bod y gweithlu'n sefydlog.

Mae cynlluniau manwl i ymdrin â meysydd lle mae angen rhagor o newidiadau. Amlinellir bwriadau'r cyngor i wella gwasanaethau yng 'Nghynllun Gwasanaethau Cymdeithasol 2013-2017'. Mae'r bwriadau hyn yn cynnwys sicrhau bod barn pobl ynglŷn â bylchau mewn gwasanaethau'n dylanwadu ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu monitro a'u datblygu. Mae'r cyngor yn dweud ei fod wedi cryfhau ei fframwaith ymgynghori ac y bwriedir cynnal ymarferion ymgynghori i gefnogi unrhyw gynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau. Canfu 'adroddiad ymgynghori' blynyddol y cyngor, er enghraifft, bod defnyddwyr gwasanaethau at ei gilydd yn fodlon â gwasanaethau. Mae hefyd yn nodi bod rhai bylchau i'w gweld mewn gwasanaethau, yn enwedig yng nghyswllt gofal seibiant i oedolion.

Un o brif flaenoriaethau'r cyngor yn ystod y cyfnod adrodd oedd gweithio gyda phartneriaid er mwyn gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Darparu Gwybodaeth i Ofalwyr ac Ymgynghori â Hwyl. Mae Dangosyddion Perfformiad yn dangos bod y cyngor yn dda iawn am gynnig a darparu asesiadau i ofalwyr.

Canfu ein harolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor dystiolaeth bod plant yn cael eu hannog, fel rhan o broses yr adolygiad, i fynegi eu barn am eu gofalwyr a'u lleoliad. Mae grwpiau ymgynghori eraill sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn y cyngor, gan gynnwys panel rhianta corfforaethol sydd â thri chynrychiolydd plant sy'n derbyn gofal. Er hyn, canfu ein Harolygiad Cenedlaethol o Ddiogelu a Chynllunio Gofal Plant sy'n Derbyn Gofal ac Unigolion sy'n Gadael Gofal, sy'n Ymddwyn mewn Ffordd sy'n eu Gwneud yn Agored i Niwed neu a Allai Beri Risg (arolygiad plant sy'n derbyn gofal) y dylid ystyried a fyddai'n bosibl cael dull mwy cyson o gynorthwyo pobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyfranogi ac ymwneud â datblygu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau.

Mae 'Rhaglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru' (SEWIC) wedi cytuno i fonitro cynnydd ar sail fframwaith strategol 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'r cyngor yn dweud bod cynnydd wedi'i wneud drwy nodi siaradwyr Cymraeg yn ei weithlu.

### Ymateb i'r meysydd i'w gwella yn adroddiad y llynedd

<b>Meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd</b>	<b>Cynnydd yn 2013 - 14</b>
Sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, asesu ac ymateb i newid lleoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.	Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, â'r ganran newid lleoliad yn gwella ychydig a'r ganran newid ysgol yn gwella 5 pwynt canran. Er hyn, mae angen gwneud mwy. Mae'r cyngor wedi cynnal ymarfer i aildendro darpariaeth gofal preswyl o'r sector annibynnol. Mae manyleb y gwasanaethau'n cynnwys darparu hyd at dair uned lety lai i gynnig mwy o ddewisiadau ar gyfer lleoliadau. Canfu 'arolygiad plant sy'n derbyn gofal' Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod gan y gwasanaethau plant strategaeth gomisiynu gynhwysfawr.
Cynyddu'r maethu sydd ar gael yn fewnol.	Cyflwynwyd y 'Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth'. Mae gweithiwr cymdeithasol wedi cael ei recriwtio i weithredu fel swyddog recriwtio ac mae'n canolbwyntio ar recriwtio gofalwyr i ddarparu rhagor o wasanaethau seibiant, lleoliadau i grwpiau o frodyr a chwiorydd a lleoliadau i blant sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor yn dweud bod nifer y gofalwyr maeth wedi cynyddu.

Cysoni polisiâu ar gyfer oedolion hŷn wedi'u hintegreiddio â'r gwasanaethau iechyd meddwl ar draws dau fwrdd iechyd.	Mae gwasanaethau gofal iechyd a oedd yn cael eu darparu yng ngorllewin y Fro, yng nghyswllt gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion iau a hŷn, bellach yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
Gwella cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal.	Mae perfformiad yn y maes hwn wedi dirywio yn 2013-14 o'i gymharu â'r llynedd: o 55.6% i 44.4% o'r bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y gwyddys eu bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant pan yn 19 oed. Mae gwella perfformiad yn y maes hwn wedi cael ei wneud yn amcan gwella i'r cyngor cyfan.
Parhau i flaengynllunio i fodloni anghenion cyfran sy'n cynyddu o bobl hŷn yn y boblogaeth.	Mae tystiolaeth o flaengynllunio effeithiol yn y strategaethau amrywiol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

### **Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn**

- Adolygiad Cenedlaethol o Gomisiynu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion yng Nghymru ('adolygiad comisiynu').
- Arolygiad Cenedlaethol o Ddiogelu a Chynllunio Gofal Plant sy'n Derbyn Gofal ac Unigolion sy'n Gadael Gofal, sy'n Ymddwyn mewn Ffordd sy'n eu Gwneud yn Agored i Niwed neu a Allai Beri Risg ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal').
- Ymweliad safle'r gwasanaeth Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd.
- Ymweliad safle'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig.
- Cyfarfod darparwyr gofal cartref annibynnol ym Mro Morgannwg.
- Cyfarfod fforwm 50+ y Fro.
- Arsylwi ar bwyllgorau craffu.
- Cyfarfodydd ymgysylltu misol ag uwch swyddogion i adolygu cynnydd ar sail y meysydd a nodwyd yn llythyr gwerthuso 2012-13 Fframwaith Adrodd Blynyddol y cyngor.

Roedd arolygiad o blant sy'n derbyn gofal i fod i gael ei gynnal yn 2013–2014, ond roedd hi'n ddechrau 2014-2015 pan gafodd ei gynnal. Er hyn, rydym wedi dewis rhannu rhai o'i ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn gan fod y wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad yn ymdrin â'r cyfnod adrodd hwn.

### **Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf**

- Tîm iechyd meddwl integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro.

- Bydd AGGCC yn cyfrannu tuag at adolygiad dan arweiniad Swyddfa Archwilio Cymru i edrych a yw cynghorau yn cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn effeithiol, gan gynnwys drwy waith cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Perfformiad**

### **Llunio gwasanaethau**

Mae cynllun integredig sengl neu 'Strategaeth Gymunedol' y cyngor yn ymwneud â'r cyfnod 2011–21 ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau a strategaethau partneriaeth allweddol. Mae'r strategaeth yn cynnwys y 'Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant', y 'Cynllun Plant a Phobl Ifanc', y 'Cynllun Diogelwch Cymunedol' (2011 – 2014 i gyd) a'r 'Strategaeth Pobl Hŷn'. Mae'r cyngor yn dweud mai'r bwriad wrth ymgorffori strategaethau a chynlluniau partneriaeth allweddol mewn un strategaeth yw gwella gwasanaethau cyhoeddus mewn partneriaeth a gwneud gwell defnydd o adnoddau. Y nod yw llunio a chydgyssylltu gwasanaethau sy'n gwella iechyd a lles dinasyddion a chadw annibyniaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n dweud bod gan y cyngor gynlluniau effeithiol er mwyn rheoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae'n dal i ymgynghori'n eang ag aelodau a rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'i Gyllideb gan eu cynnwys wrth nodi pa wasanaethau ddylai gael eu blaenoriaethu. Mae'r cyngor yn dweud bod prosesau cynllunio gwasanaethau a llywodraethu wedi cael eu diwygio a'i fod yn ymgysylltu â phob un o'r prif rhanddeiliaid.

Mae'r cyngor wedi defnyddio'r 'Gronfa Gydweithredu Ranbarthol' i ddatblygu rhagor o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar y cyd, er enghraifft ailalluogi, a sefydlu uned gomisiynu ar y cyd ranbarthol ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae'r gwaith o uno'r byrddau diogelu plant ac oedolion ym Mro Morgannwg ac yng Nghaerdydd wedi'i gwblhau; erbyn hyn mae dau fwrdd rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion a phlant.

### **Oedolion**

Un o brif flaenoriaethau'r cyngor ar gyfer gwasanaethau Pobl Hŷn yn 2013-14 oedd datblygu cynllun newydd yn seiliedig ar ardaloedd er mwyn ailfodelu gwasanaethau gan roi pwyslais ar ragor o integreiddio gyda'r bwrdd iechyd. Mae'r cyngor yn bwriadu gweithio gyda'r trydydd sector a sefydliadau busnes er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ailalluogi, adsefydlu a darparu dull lleol ataliol o

gynorthwyo pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

Mae'r cyngor yn dweud ei fod wedi gallu dal i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd er mwyn cwblhau ei gynlluniau comisiynu, yn enwedig yng nghyswllt gwasanaethau integredig ac ailfodelu gwasanaethau i Bobl Hŷn. Drwy'r 'Gronfa Gydweithredu Ranbarthol' gwelwyd agwedd newydd at asesiadau integredig, cynnydd yn nifer y therapyddion galwedigaethol a gwelliannau i'r gwasanaethau ailalluogi ar gyfer pobl hŷn.

Er bod rhai argymhellion ar gyfer gwelliannau wedi'u gwneud, canfu adolygiad comisiynu AGGCC fod y cyngor wedi datblygu cynlluniau da, fel y ganolfan gomisiynu ranbarthol, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cost uchel, nifer isel ac yn darparu sylfaen dda ar gyfer comisiynu cydgysylltiedig yn y dyfodol. Mae swydd y pennaeth gwasanaethau oedolion yn swydd ar y cyd â'r bwrdd iechyd ac mae'n cynnig manteision amlwg o ran comisiynu integredig.

Mae'r 'Rhaglen Integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol' wedi cael ei diwygio yn dilyn gwaith gyda 'The King's Fund' ac Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru. Nod y rhaglen hon yw cyflymu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, mae'r system asesu ar gyfer pobl hŷn wedi cael ei symleiddio ac yn ystod y flwyddyn gwnaethpwyd newidiadau i systemau TG i hwyluso'r dulliau newydd o weithio.

Er mwyn helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty (ac osgoi sefyllfaoedd lle mae'n rhaid derbyn cleifion i'r ysbyty), mae'r cyngor wedi ehangu'r defnydd o Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud hefyd wrth weithredu model y 'Gwasanaeth Rhyddhau Integredig' ac mae'r tîm wedi cael ei staffio'n llawn erbyn hyn. Fodd bynnag, mae cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty am resymau gofal cymdeithasol yn 8.2 ar gyfer pob 1000 yn y boblogaeth 75 oed a throsodd. Mae hyn bron ddwywaith cymaint â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r cyngor yn dweud bod hyn oherwydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau a lleoedd gweigion mewn timau allweddol yn y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig. Mae'r swyddi gweigion hyn wedi cael eu llenwi erbyn hyn.

Ar y cyd â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'r cyngor wedi datblygu 'Cynllun Dementia' tair blynedd. Pwrpas y cynllun yw gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i bobl sydd ag anghenion gofal dementia. Comisiynwyd strategaeth gomisiynu newydd hefyd ar gyfer oedolion sydd ag anabledd dysgu. Mae'r blaenoriaethau comisiynu'n cynnwys cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl a mwynhau dysgu gydol oes. Mae'r cyngor yn darparu Gwasanaeth Lleoli Oedolion cofrestredig. Mae tua 25 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn byw gyda theuluoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun Lleoli Oedolion. Mae'r cyngor yn dweud bod rhagor o waith yn cael ei wneud



gyda darparwyr tai a bydd aifoddelu gwasanaethau dydd yn rhan o'r strategaeth hefyd.

## **Plant**

Mae'r 'Strategaeth Comisiynu Plant a Phobl Ifanc' yn nodi sut y bydd anghenion gofal cymdeithasol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu diwallu â'r adnoddau sydd ar gael i'r cyngor yn y cyfnod o 2013 hyd 2018. Mae'r strategaeth yn nodi'r her o ddiwallu anghenion nifer cynyddol o blant a phobl ifanc anabl hŷn a fydd angen cefnogaeth. Mae blaenoriaethau'r cyngor yn cynnwys cynnal partneriaeth effeithiol â phob asiantaeth drwy'r bwrdd newydd ar gyfer diogelu plant ar y cyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Yn 2013-14 gwelwyd gostyngiad yn nifer y 'plant mewn angen', ac roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant tua 30 y cant yn llai. Efallai fod hyn yn adlewyrchu llwyddiant timau ymyriadau cynnar y cyngor. Gostyngodd nifer y plant sy'n derbyn gofal o 196 i 187 yn 2013-14. Er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd a sefyllfaoedd parhaol i blant sy'n derbyn gofal, mae'r cyngor wedi parhau â'i strategaeth o ddirymu gorchmynion gofal i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu lleoli gartref gyda'u rhieni, os yw'r asesiad yn dangos bod hynny'n ddiogel, a chefnogi gofalwyr maeth hirdymor a gofalwyr sy'n berthnasau i wneud cais am orchmynion preswyl neu orchmynion gwarcheidiaeth arbennig.

Ar gyfer rhai plant sy'n derbyn gofal sydd angen llety, mae'r cyngor wedi cynnal ymarfer i aildendro darpariaeth gofal preswyl o'r sector annibyennol, sy'n cynnwys darparu hyd at dair uned lety lai i gynnig mwy o ddewisiadau o ran lleoliadau. Bwriad y cyngor yw agor yr uned breswyl gyntaf o hyd at dair yn nhymor yr hydref 2014.

Mae'r cyngor yn gweithio ar fodel mabwysiadu cydweithredol rhanbarthol gyda chynghorau Caerdydd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Mae'r cyngor yn arwain ac yn noddi'r cydweithio rhanbarthol ac mae'r cabinet wedi cytuno ar strwythur ar gyfer hyn. Mae llawer o waith paratoawl yn cael ei wneud er mwyn ymdrin â materion modelu gwasanaeth, trefniadau llywodraethu, cyllid ac adnoddau dynol.

## **Meysydd lle gwelwyd cynnydd**

- O ran gwasanaethau oedolion, mae'r ganolfan gomisiynu ranbarthol yn darparu sylfaen dda ar gyfer comisiynu cydgysylltiedig yn y dyfodol.
- Mae'r cyngor yn comisiynu gwasanaethau preswyl lleol i gefnogi plant yn yr awdurdod.
- Mae prosesau cynllunio a llywodraethu gwasanaethau wedi cael eu diwygio ac ymgysylltir â phob un o'r prif randdeiliaid.
- Mae cynnydd da wedi'i wneud â'r dasg o sefydlu strategaethau comisiynu ar draws ystod o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.

- Mae systemau'n cael eu datblygu er mwyn monitro costau cynlluniau gwasanaethau, yn unigol ac ar y cyd.

## **Meysydd i'w gwella**

Mae angen i'r cyngor

- Leihau nifer y bobl sy'n profi oedi wrth drosglwyddo'u gofal o ysbyty am resymau gofal cymdeithasol.

## **Cael help**

### **Oedolion**

Mae canolfan gyswllt UnFro yn darparu llinell gyswllt ganolog er mwyn i bobl allu cael cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth gan y cyngor. Darperir system ar ddyletswydd 'y tu allan i oriau gwaith', ac mae'r gwasanaeth pecyn diogelwch yn y cartref (TeleV), ynghyd â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau gwaith, wedi'u lleoli ar yr un safle â chanolfan gyswllt UnFro. Mae UnFro'n cynnwys nifer o wasanaethau gan gynnwys y Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol, y Gwasanaeth Nyrso Cymunedol Integredig a'r Gwasanaeth Podiatreg a Chwyrpiadau.

Un o flaenoriaethau'r cyngor ar gyfer gwella yn ystod 2013-14 oedd lleihau amseroedd aros cyn cael gweld y Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion. Mae'r cyngor yn dweud bod y Mesur Iechyd Meddwl wedi ailddiffinio cymhwyster ar gyfer gwasanaethau ac mae hyn wedi dal i effeithio ar nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at y Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion (a chymhlethdod eu hanghenion). Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd rhestr aros o hyd ar gyfer y Tîm Gofal Cymunedol i Oedolion a'r tîm Iechyd Meddwl Cymunedol – Pobl Hŷn. Mae hyn yn golygu y gallai cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac atal problemau rhag mynd yn gymhlethach gael eu colli. Mae'r cyngor yn canolbwyntio ar yr angen i ddal i geisio sicrhau gwelliannau yn y maes hwn er mwyn iddo allu cyflawni ei uchelgais o gefnogi rhagor o bobl yn y gymuned. Mae timau therapi galwedigaethol yn dal i ddangos gwelliant da wrth leihau amseroedd aros am eu gwasanaethau.

Canfu adolygiad comisiynu AGGCC fod system frocera'r cyngor ar gyfer caffael gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref yn sicrhau bod ystod dda o wasanaethau gofal cartref ar gael yn rhwydd. Mae'r cyngor yn datblygu cynllun Gofal Ychwanegol yn nhref y Barri ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu rhagor o gynlluniau gofal ychwanegol a chynlluniau byw â chymorth eraill gyda darparwyr o'r sector annibynnol.

Mae'r cyngor yn dweud ei fod wedi cynyddu nifer y bobl sy'n cael cefnogaeth yn eu cartrefi, gan leihau'r nifer sy'n cael cefnogaeth mewn cartrefi gofal. Mae hyn mewn ymateb i gynnydd yn y galw am wasanaethau ac er mwyn cynorthwyo pobl sydd

eisiau cadw'u hannibyniaeth yn eu cartrefi. Mae Dangosyddion Perfformiad yn dangos bod canran y cleientiaid rhwng 18 a 64 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned wedi cynyddu ychydig yn 2013-14 i 90.5% a bod cyfradd y bobl 65 oed a hŷn wedi cynyddu o 74.7% yn 2012-13 i 81.1% yn 2013-14. Mae cyfradd y bobl 65 oed a hŷn ym mhob mil o'r boblogaeth sy'n cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal wedi gostwng 2.3 pwynt canran.

Mae Adroddiad Gwella Blynyddol 2013-14 Swyddfa Archwilio Cymru'n datgan bod y cyngor "wedi bod yn ceisio gwella ei berfformiad ers sawl blwyddyn" drwy ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl, ond ei fod "wedi methu â gwella ei safle yn sylweddol o gymharu â'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru" (Adroddiad Gwella Blynyddol 2013-14). Mae tystiolaeth bod y rhan y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chwarae yn y broses gyffredinol wedi dod yn fwy amserol.

Ar gyfer pobl sydd angen llety preswyl fel rhan o'u trefniadau rhyddhau o'r ysbyty canfu AGGCC – yn ystod ymweliad safle â'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig – fod gan y 'cynghorydd lleoli' ymwybyddiaeth dda o gyfleusterau preswyl yn y cyngor a'r ardaloedd cyfagos a'i fod yn cael ei werthfawrogi gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn ymwybodol o leoedd gwag addas mewn cartrefi gofal.

Mae 'Swyddog Cefnogi Gofalwyr' ar gael i gefnogi'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n derbyn gwasanaeth gan y timau iechyd meddwl cymunedol. Mae'r cyngor yn dweud bod hyn wedi arwain at asesiadau mwy effeithiol a phrydlon o anghenion gofalwyr.

## **Plant**

Mae atgyfeiriadau a chysylltiadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu rheoli drwy'r tîm derbyn a chefnogi teuluoedd. Mae Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn dangos bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn dilyn atgyfeiriad yn brydlon ac mae nifer yr ail atgyfeiriadau'n dal i ostwng.

Mae gwasanaethau ataliol yn nodwedd amlwg yn strategaethau cynllunio ac ymyrryd y cyngor. Mae Dechrau'n Deg, sy'n targedu cefnogaeth yn ystod y blynyddoedd cynnar i deuluoedd sydd â phlant dan bedair oed, yn elfen allweddol o'r strategaeth atal. Mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg wedi cael ei hymestyn i ardal Castleland yn y Barri. Bydd y rhaglen yn dyblu o ran maint yn ystod y ddwy flynedd nesaf i gynnig gwasanaeth i 1,200 o blant.

Mae tîm gwasanaethau ataliol Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd yn ceisio nodi a gweithio gyda theuluoedd sydd angen cefnogaeth yn gynnar er mwyn sicrhau na fydd arnynt angen gwasanaethau statudol. Gwnaethpwyd tua 290 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Dywedodd y teuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wrth AGGCC ei fod wedi bod yn fuddiol iawn

iddynt. Roedd teuluoedd wedi cael cefnogaeth i fagu eu plant ac roeddent yn hoffi'r ffaith fod y tîm ar wahân i dimau plant y gwasanaethau cymdeithasol.

Nododd yr arolygiad plant sy'n derbyn gofal bryder ynglŷn â gallu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl i ddiwallu anghenion. Teimlid bod perthynas y cyngor â'r gwasanaethau iechyd yn orddibynnol ar gyllid ac adnoddau gan wasanaethau plant y cyngor er mwyn asesu a diwallu anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

Mae'r Tîm Troseddau leuenctid yn darparu gwasanaethau ataliol a statudol i bobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu. Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi archwiliad Sgrinio Ansawdd Byr o'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2013 a chanfu sefyllfa gadarnhaol iawn yng Ngwasanaeth Troseddau leuenctid Bro Morgannwg. Nododd fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers arolygiad 2011.

### **Meysydd lle gwelwyd cynnydd**

- Mae'r cyngor wedi creu gwasanaeth ailalluogi integredig newydd gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn Ysbyty'r Barri ac mae wedi cwblhau'r cyfleuster tai Gofal Ychwanegol newydd yn y Barri.
- Parhaodd timau therapi galwedigaethol i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau.
- Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ei waith Troseddau leuenctid.
- Mae systemau'n cael eu datblygu er mwyn monitro costau cynlluniau gwasanaeth, yn unigol ac ar y cyd.

### **Meysydd i'w gwella**

Dylai'r cyngor:

- Wella niferoedd a graddfeydd amser y grantiau cyfleusterau i'r anabl sy'n cael eu darparu.
- Gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, ystyried sut y gellir diwallu anghenion therapiwtig plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn effeithiol ac yn effeithlon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yng nghyswllt gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ac mae hefyd yn broblem genedlaethol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

## **Y gwasanaethau a ddarperir**

### **Oedolion**

Prif nod y cyngor yw helpu pobl i ddal i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gymaint o amser ag sy'n bosibl ac mae'n ceisio darparu trefniadau gofal cartref fel dewis arall yn lle modelau gofal preswyl. Daeth adolygiad comisiynu AGGCC i'r casgliad bod gan y cyngor ystod foddhaol o wasanaethau gofal preswyl a'i fod wedi creu nifer o ddarpariaethau arbenigol i bobl sydd â dementia.

Mae gwasanaethau oedolion yn cefnogi pobl sydd ag ystod o anghenion gan gynnwys anabledd corfforol, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrau, salwch meddwl a phroblemau iechyd meddwl a ddaw i ran pobl hŷn. Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys gofal cartref, gofal preswyl a gwasanaethau wedi'u comisiynu gan nifer o wasanaethau annibynnol o fewn ffiniau'r cyngor a'r tu hwnt iddynt. Yn ystod y cyfnod adrodd roedd tua 20% o'r gwasanaethau oedolion a oedd yn cael eu comisiynu (cartrefi gofal a gofal cartref) heb fod yn cydymffurfio â rheoliadau a nodwyd gan AGGCC. Fodd bynnag, yn gyffredinol dim ond chwech y cant o'r holl wasanaethau wedi'u rheoleiddio oedd ddim yn cydymffurfio yn ystod y cyfnod adrodd.

Mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd ac ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'r cyngor wedi cwblhau strategaeth cyfleoedd dydd. Mae Canolfan Ddydd Woodlands wedi cael ei hadleoli ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn ystyried y dewisiadau ar gyfer modelau gwasanaeth dydd yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau sy'n cael eu nodi yn adroddiad y cyfarwyddwr ar gyfer 2014-2015 yn cynnwys: gweithredu'r strategaeth cyfleoedd dydd a sicrhau bod llety 'Gofal Ychwanegol' newydd ar gyfer pobl hŷn yn cael ei ddefnyddio fel dewis arall yn lle modelau gofal mwy sefydliadol.

I bobl sydd ag anabledd dysgu, mae'r gwaith asesu a rheoli gofal yn cael ei wneud gan dîm amlasiantaeth. Mae cynlluniau i integreiddio rhagor o wasanaethau gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae gwasanaeth cyfyngedig ond arbenigol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu synhwyrau, sy'n cael ei ddarparu drwy'r timau gofal cymunedol a therapi galwedigaethol ar gyfer oedolion.

### **Oedolion**

Mae'r cyngor yn dweud bod y galw am un o'u prif wasanaethau ataliol, 'Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd', yn uchel ac nad yw'r gwasanaethau'n gallu dygymod â'r galw ar adegau. Mae'r swyddog gofal cymdeithasol ychwanegol sydd wedi'i gyflogi'n helpu i fynd i'r afael â hyn. Canfu ymweliad safle AGGCC bod rhai achosion yn cael eu dal gan y tîm hwn am bum mis ar gyfartaledd a bod rhai achosion yn cael eu dal am hyd at 12 mis o'u cymharu â'r canllaw o dri mis sydd yn y polisi. Mae'r cyngor yn dweud bod y trothwy wedi codi'n sylweddol gan fod

atgyfeiriadau ar lefel 'plant mewn angen' yn hytrach na phlant a phobl ifanc sydd angen ymyriad cynnar er mwyn sicrhau nad ydynt yn gorfod cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau mwy prif ffrwd. Mae hyn yn lleihau gallu'r gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau ataliol i fwy o deuluoedd. Ers hynny mae archwiliad mewnol o'r gwasanaeth wedi'i gynnal, ac mae'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu protocol rhwng Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd a'r tîm derbyn ac asesu teuluoedd.

Darperir y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn 2013-14, bu'r gwasanaeth yn gweithio gydag 13 o deuluoedd ym Mro Morgannwg. Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos bod rhai canlyniadau da wedi'u sicrhau ar gyfer rhai teuluoedd a dderbyniodd wasanaethau.

Arolygodd AGGCC wasanaeth maethu mewnol y cyngor yn ystod y cyfnod adrodd a chanfu fod gan yr asiantaeth faethu at ei gilydd systemau priodol er mwyn sicrhau ei bod yn recriwtio ac yn cymeradwyo gofalwyr maeth da. Fodd bynnag, roedd tri maes lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r rhain yn ymwneud ag adroddiadau ymweliadau statudol, hyfforddiant i ofalwyr maeth a'r trefniadau ar gyfer monitro cyrhaeddiad addysgol, cynnydd a phresenoldeb mewn ysgolion y plant sy'n cael eu lleoli. Mae sylw wedi'i roi i'r diffyg cydymffurfiad ers hynny.

Mae'r cyngor wedi darparu cyllid ar gyfer gweithiwr cymdeithasol cymwysedig i weithredu fel swyddog recriwtio i ofalwyr maeth. Y nod yw cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol ym Mro Morgannwg. Mae'r cyngor wedi cyrraedd ei darged o recriwtio wyth gofalwr maeth yn 2013-14; roedd hyn yn gynydd net o ddau ofalwr maeth prif ffrwd.

### **Meysydd lle gwelwyd cynnydd**

- Mae'r cyngor wedi gwneud archwiliad o atgyfeiriadau rhwng Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd a'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd er mwyn datblygu protocol atgyfeirio gyda'r tîm derbyn ac asesu teuluoedd.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y gofalwyr maeth a sylw canolog yn cael ei roi i ddarparu lleoliadau ar gyfer seibiant, grwpiau o frodyr a chwiorydd a phlant sydd ag anghenion cymhleth iawn.
- Mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoli gan y cyngor yn datblygu i fod yn fwy gwydn drwy fwy o integreiddio a gweithio mewn partneriaeth.

## **Meysydd i'w gwella**

Dylai'r cyngor:

- Drwy fwrdd rheoli teuluoedd yn gyntaf, graffu'n fanylach ar achosion sy'n cael eu dal gan y gwasanaeth Teuluoedd yn Sichau Newid Gyda'i Gilydd.

## **Effaith ar fywydau pobl**

### **Oedolion**

Mae'r cyngor yn dweud bod tystiolaeth bod integreiddio'r gwasanaeth gyda iechyd mewn gwasanaethau i oedolion yn darparu gwell profiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r canlyniadau'n cynnwys llai o ddyblygu, rhannu gwybodaeth bwysig yn well a symleiddio asesiadau.

Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd drwy weithredu'r model 'Gwasanaeth Rhyddhau Integredig' ac mae'r tîm wedi'i staffio'n llawn erbyn hyn. Fodd bynnag, mae oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty am resymau gofal cymdeithasol wedi cynyddu. Cynhaliodd AGGCC ymweliad safle â'r gwasanaeth hwn a siaradodd â staff, teuluoedd a chleifion. Roedd tystiolaeth bod staff gweithredol yn ymdrin ag amgylchiadau sy'n ymwneud â rhyddhau yn sensitif. Er hyn, dywedodd rhai cleifion eu bod yn teimlo dan bwysau pan oedd eu teuluoedd yn derbyn llythyrau yn nodi bod angen eu rhyddhau o'r ysbyty. Roedd rhywfaint o oedi'n cael ei achosi oherwydd methiant staff i roi gwybodaeth glir i deuluoedd neu i gyflawni tasg mewn pryd. Roedd y teuluoedd yn teimlo nad oedd y cyfarfodydd amlasiantaeth o gymorth iddynt gan nad oedd y trefniadau rhyddhau'n cael eu cyfathrebu'n dda. Dywedodd rhai pobl bod y wybodaeth a roddid i ofalwyr gan staff y ward yn peri dryswch. Y derbynwyr trefniadau rhyddhau bodlonaf oedd y rhai lle'r oedd cleifion yn cael mynd yn ôl i'r gymuned, ac yn cael eu cefnogi gan drefniadau effeithiol. Roedd gwaith y cynghorwr lleoliadau, a oedd yn cael ei ddarparu drwy drefniadau gyda'r trydydd sector, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y bobl a oedd yn derbyn y gwasanaeth hwn.

Yn ôl y cyngor, o'r 256 o oedolion y darparwyd pecynnau ailalluogi iddynt daeth bron i 70% yn annibynnol ac roedd ar 18% angen pecyn gofal llawer llai. Drwy wneud arolwg, roedd y cyngor yn gallu dod i'r casgliad bod 80% o bobl yn profi mwy o annibyniaeth ar ôl iddo ddarparu cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Canfu adolygiad AGGCC o gomisiynu fod y gwaith o fonitro gwasanaethau a roddir ar gontract gan yr awdurdod lleol yn seiliedig ar bolisiau a gweithdrefnau, a'i fod yn gyson â'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn ar gyfer broceriaeth a chontractau'n dibynnu ar gontractau ar gyfer oriau gwasanaeth neu dasgau i'w cyflawni. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau i bobl ac ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r cyngor yn dweud bod hyn

yn cael ei wneud yn 2014/2015. Er mai dim ond ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yw'r perfformiad, gwelwyd gostyngiad o bron i 10 pwynt canran yn nifer y cynlluniau gofal a adolygwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth wneud sylw ynglŷn ag ansawdd y gofal y maent yn ei gael.

## Plant

Mae perfformiad gwasanaethau plant yn dda, ac mae'r cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, mae diwallu anghenion iechyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal yn her i'r cyngor. Mae canran yr asesiadau iechyd statudol a gynhaliwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn llawer gwell na pherfformiad 2012-13, er bod y ganran o 66.5% yn dal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 81%. Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng i 87.6% ac mae'n is na chyfartaledd Cymru. Mae Cynlluniau Addysg Personol yn arf pwysig er mwyn pennu targedau a chamau gweithredu clir i ymateb i anghenion a dyheadau pob plentyn a darparu cofnod parhaus o'i gyraeddiadau a'i gyflawniadau. Disgynnodd canran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Addysg Personol o 75.8% i 40%. Roedd hyn yn dangos bod angen cryfhau'r berthynas waith rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Ar ôl gweithredu'r trefniadau newydd ym mis Ionawr 2014, mae'r cyngor yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Addysg Personol wedi cael eu cwblhau o fewn y cyfnod gofynnol o 20 diwrnod ar ôl mynd i ofal neu ymuno ag ysgol newydd. Mae'n bwysig bod y cyngor yn sicrhau ei fod yn cynnal y gwelliant hwn.

Dangosodd arolygiad AGGCC o wasanaeth maethu'r cyngor bod plant yn gallu mynegi eu barn ynglŷn â'u lleoliad. Mae hyn yn digwydd drwy ymweliadau lleoliadau a chyfarfodydd adolygu â chadeirydd annibynnol. Yn ychwanegol at hyn, mae gofalwyr yn cael eu hadolygiad cymeradwyo chwe mis ar ôl eu cymeradwyaeth gychwynnol. Roedd tystiolaeth bod plant yn cael eu hannog, fel rhan o'r broses adolygu, i fynegi eu barn am eu gofalwyr a'r lleoliad. Mae grwpiau ymgynghori eraill sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn y cyngor, gan gynnwys panel rhianta corfforaethol, sydd â thri chynrychiolydd plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid oes strategaeth gyfranogi drosfwaol i ddangos sut y mae barn plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar ddatblygu a gwella gwasanaethau fel mater o drefn.

Mae amcan y cyngor o wella sefydlogrwydd plant sy'n derbyn gofal yn dal i gael ei weithredu. Roedd canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cael tri neu ragor o leoliadau yn 10.4% o'i gymharu ag 11.7% yn y flwyddyn flaenorol, er bod hyn yn dal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.3%. Mae gwelliant hefyd yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi newid ysgol unwaith neu fwy, sef 16.4% o'i gymharu â 21.7% yn y flwyddyn flaenorol.



Mae'r cyngor yn ceisio cadw mewn cysylltiad â phob person ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal ac mae cynghorydd personol ar gael iddynt. Mae'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal yn gymysg. Er bod canran y bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth erbyn y maent yn 19 oed wedi gostwng o 55.6% i 44.4%, y cyngor yw'r trydydd uchaf yng Nghymru o ran y pwyntiau cymwysterau cyfartalog y mae'r grŵp hwn yn llwyddo i'w cael. Mewn partneriaeth â'r adran dai a'r darparwr trydydd sector, Llamau, mae'r cyngor yn dweud bod anghenion pobl ifanc 16–18 oed sy'n ddi-gartref yn cael eu hasesu'n effeithiol.

Mae'r cyngor wedi cynnal arolwg bodlonrwydd ar gyfer y gwasanaeth Teuluoedd yn Sicrhau Newid Gyda'i Gilydd. Canfu'r arolwg bod rhieni ar y cyfan yn fodlon iawn â'r gefnogaeth y maent yn ei chael gan y gwasanaeth, yn enwedig y cyffyrddiad unigol a gynigir. Adlewyrchwyd hyn mewn sylwadau gan weithwyr proffesiynol. Roedd yr arolwg yn dangos bod gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fwy o hyder a bod newidiadau cadarnhaol i'w gweld yn eu hamgylchiadau.

### **Meysydd lle gwelwyd cynnydd**

- Mae gwasanaeth rhyddhau integredig y cyngor, sy'n cael ei weithredu mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn arloesol o ran ei gwmpas a'i fwriad a phan fydd yn cael ei weithredu'n llawn dylai fod yn faes sy'n dangos ymarfer da.
- Roedd y cynghorydd lleoliadau, sy'n cael ei ddarparu drwy gydweithrediad â'r trydydd sector, yn uchel iawn ei barch gan bobl a oedd wedi derbyn y gwasanaeth hwn wrth gael eu rhyddhau i gyfleuster cartref gofal.
- Mae'r cyngor wedi lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol.
- Mae'r cyngor wedi cydymffurfio â'r flaenoriaeth o uno Byrddau Lleol Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro.
- Mae trefniadau ar gyfer diogelu grwpiau agored i niwed rhag cael eu cam-drin gan staff y cyngor yn cael eu cyfnerthu.

### **Meysydd i'w gwella**

Dylai'r cyngor:

- Sicrhau bod y Polisi Rhyddhau Integredig yn cael ei weithredu'n llawn;
- Gwerthuso a gwella trefniadau ar gyfer adolygu cynlluniau gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion;
- Adolygu trefniadau ar gyfer broceriaeth a chontractio er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl;
- Dal i wella cyfraddau asesiadau iechyd statudol a chynlluniau addysg personol i blant sy'n derbyn gofal; a
- Gwella canran y bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y gwyddys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Capasiti

### Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n dweud bod gan y cyngor gynlluniau effeithiol i reoli'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ac mae wedi datblygu cynllun gyda'r bwriad o baratoi ei weithlu ar gyfer y dyfodol. Mae'r 'Strategaeth Ariannol Tymor Canolig' ar gyfer y cyfnod 2013-2017 wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion yn ystod y tair blynedd nesaf.

Er mwyn sicrhau gweithlu digonol sydd â sgiliau da, mae'r cyngor wedi datblygu cynllun gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol 2013-2017. Dywedir bod staff y gwasanaethau cymdeithasol yn gymharol brofiadol a bod y gweithlu'n sefydlog.

Daeth adolygiad AGGCC o gomisiynu i'r casgliad y gellid gwella'r gwaith o fonitro gwasanaethau a roddir ar gontract drwy ganolbwyntio mwy ar ansawdd y gofal a brofir gan ddefnyddiwr gwasanaethau. Yn ystod 2013-2014, dechreuodd y cyngor a Chyngor Caerdydd ystyried y posibilrwydd o gydweithio er mwyn caffael gwasanaethau gofal cartref. Cytunwyd ar dempled ar gyfer datganiad ar sefyllfa'r farchnad a threfnwyd i gwblhau'r gwaith yn 2014-2015.

Mae'r cyngor yn dweud eu bod yn dal yn aelod o Raglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (SEWIC) ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn dod â chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol deg awdurdod lleol yn yr ardal at ei gilydd i adolygu a datblygu gwasanaethau newydd sy'n galw am gydweithio yn y rhanbarth. Ceir cydweithio parhaus â 'Chonsortium Comisiynu ar gyfer Plant Cymru', a dywedir ei fod yn helpu i ddod o hyd i leoliadau allanol da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae gwaith yn parhau gyda Chyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn datrys yr anawsterau a geir wrth geisio dod o hyd i ddigon o leoliadau hirdymor mewn cartrefi nyrsio. Canfu adolygiad comisiynu AGGCC dystiolaeth bod yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbyty, a bod y partneriaid yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau mynediad priodol at wasanaethau.

Ceir cydweithio parhaus â 'Chonsortium Comisiynu ar gyfer Plant Cymru', a dywedir ei fod yn helpu i ddod o hyd i leoliadau allanol da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## **Meysydd cynnydd**

- Mae'r cyngor yn ystyried cydweithio ag eraill er mwyn caffael gwasanaethau gofal cartref. Cytunwyd ar dempled Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad yn 2013-2014, i'w gwblhau yn 2014-2015.
- Mae gan y cyngor weithlu sefydlog a chymharol brofiadol ac mae ei berfformiad yn cael ei fonitro a'i asesu.
- Mae Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cyrraedd targedau heriol ar gyfer rheoli absenoldeb staff ac ar gyfer cwblhau gwerthusiadau.

## **Meysydd i'w gwella**

Dylai'r cyngor:

- Ystyried yr adborth yn dilyn yr adolygiad cenedlaethol o gomisiynu a sicrhau, yn fwyaf arbennig, bod y gwaith o fonitro contractau'n rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd y gofal a brofir gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu.

## **Darparu cyfeiriad**

Mae arweiniad a chyfeiriad clir ar gyfer holl swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyngor yn dweud bod y strwythur rheoli corfforaethol addasedig wedi dod yn gwbl weithredol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyfarwyddwr yn aelod o'r tîm rheoli corfforaethol ac yn gweithredu fel dirprwy reolwr gyfarwyddwr ar sail rota gyda'r cyfarwyddwyr gwasanaeth eraill. Mae'r cyngor yn dal i elwa o gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol sefydlog ac effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae'r cyngor yn dweud mai ei brif gynlluniau strategol ar gyfer y cyfnod adrodd oedd Cynllun Gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth 2013-17 a Rhaglen y Gyllideb. Mae'r cynllun gwasanaethau'n gysylltiedig â phrif ganlyniadau ac amcanion y cyngor sy'n cael eu nodi yn y cynllun corfforaethol ar gyfer 2013-17.

Un o brif flaenoriaethau'r cyngor yw trawsnewid gwasanaethau i bobl hŷn, ac mae'n dweud bod pobl hŷn yn dal i brofi gormod o ofal tameidiog yn y llwybrau gofal sy'n cael eu rhannu â'r GIG. Mae'n cydnabod bod y modelau gwasanaeth presennol yn 'orddibynnol ar ymateb i argyfwng'. Mae'r 'Strategaeth Iechyd Meddwl Integredig' a'r 'Cynllun Cyflawni' wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer strategaeth gomisiynu integredig ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cymerodd y cyngor ran yn astudiaeth gwella craffu Swyddfa Archwilio Cymru. Daeth yr adolygiad gan gymheiriaid i'r casgliad bod cadeirio da yn ystod y broses graffu, bod cysylltiadau da rhwng y swyddogion a'r aelodau, ac nad oedd ystyriaethau pleidiau gwleidyddol yn atal craffu effeithiol. Canfu'r adolygiad hefyd fod cwestiynau wedi'u trefnu'n dda a bod yr aelodau wedi ymchwilio i'r materion a pharatoi'n dda. Er hyn, roedd cyfeiriad at acwsteg wael yr ystafell, a oedd yn golygu ei bod yn anodd iawn i'r cyhoedd wrando.

Mae dogfen Llywodraeth Cymru, 'Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth' wedi arwain at y fersiwn drafft o fframwaith Pobl Hŷn y cyngor dan y teitl '*Meaningful and Purposeful Lives*' 2014-2019. Cafodd y gwaith hwn ei wneud ar y cyd â chyngor cyfagos, y bwrdd iechyd a'r trydydd sector.

Mae'r cyngor wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer 2014-2015. Mae'r rhain yn cynnwys cwblhau'r gwaith o ddatblygu 'tîm cefnogi lleoliadau dwys'. Bydd y tîm yn darparu mwy o gymorth i ofalwyr maeth sy'n gofalu am blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhlethach. Mae cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol yn dal yn flaenoriaeth hefyd. Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen llety preswyl, mae'r cyngor yn bwriadu darparu hyd at dair uned llety preswyl lai ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhlethach.

Mae'r cyngor yn bwriadu ystyried yr argymhellion sy'n cael eu gwneud gan y prosiect partneriaeth ar 'Ailfodelu Gwasanaethau i Blant sydd ag anableddau' ym Mro Morgannwg a Chaerdydd.

Canfu arolygiad plant sy'n derbyn gofal AGGCC fod diogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol i'r awdurdod. Roedd gan yr aelodau etholedig a'r uwch swyddogion wybodaeth dda ac roeddent yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roedd trefniadau rhianta corfforaethol wedi'u sefydlu'n dda ac roeddent wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae gan y cyngor banel rhianta corfforaethol trawsbleidiol, sy'n cael ei gadeirio gan yr aelod o'r cabinet sy'n gyfrifol am wasanaethau plant. Dywedir bod pobl ifanc sy'n cynrychioli plant sy'n derbyn gofal yn y Fro'n cael eu cynnwys.

### **Meysydd lle gwelwyd cynnydd**

- Mae'r cyngor yn dal i ddarparu arweiniad cryf yn y gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae'r cyngor yn parhau â'i rôl arweiniol er mwyn sicrhau mwy o weithio ar lefel ranbarthol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o reoli rhaglenni ar lefel strategol.
- Mae'r cyngor wedi cymryd rhan yn y cynllun i ailfodelu gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag anableddau ym Mro Morgannwg a Chaerdydd.

- Mae'r cyngor yn datblygu cynlluniau i adolygu'r defnydd o lefelau cadw yn y ddalfa mewn partneriaeth â Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Caerdydd a Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro.

### **Meysydd i'w gwella**

Nid oes meysydd i'w gwella.